Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Llofnodion i Deiseb – 20mya

26 Hydref 2023

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 13 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

> *Almost half a million people signed a petition for the 20Mph to be disbanded (which is more than the Labour government got in votes)*
>
> *1. When will it be discussed in the Senedd?*
>
> *2. with relevant supporting documentation including the full cost of the exercise.*

Gellir gweld ein hymateb isod.

1. *When will it be discussed in the Senedd?*

Mae'r ddeiseb **Rydym am i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r gyfraith drychinebus ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya - Deisebau (senedd.cymru)** yn casglu llofnodion ar hyn o bryd a bydd yn cau ar 13 Mawrth 2024. Mae'r wefan yn nodi y gall deisebau gasglu llofnodion am uchafswm o chwe mis.

Cysylltwyd â'r deisebydd i ofyn a yw'n dymuno cau'r ddeiseb er mwyn galluogi'r Pwyllgor Deisebau i drafod y ddeiseb yn gynt. (Mae'n arferiad gennym i drafod deisebau unwaith y cânt eu cau i lofnodion newydd). Mater i'r deisebydd yw hyn, sy'n dymuno parhau i gasglu llofnodion. Unwaith y bydd y ddeiseb yn cau, caiff ei thrafod gan y Pwyllgor Deisebau, a fydd yn trafod ai'r ffordd orau o weithredu yw gofyn am ddadl yn y Senedd neu gymryd camau eraill.

Caiff pob deiseb sy'n casglu dros 10,000 o gefnogwyr ei hystyried ar gyfer dadl.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Oni bai bod y deisebydd yn cau'r ddeiseb yn gynnar, bydd y Pwyllgor Deisebau yn ei thrafod ym mis Mawrth 2024, ac os bydd yn penderfynu gofyn am ddadl, byddai hyn yn digwydd cyn gynted ag y bydd slot ar gael yn amserlen y Senedd. Nid oes amserlen benodol ar gyfer hyn.

Yn anarferol, bu dadl yn y Senedd eisoes a gyfeiriodd at y ddeiseb hon, a hynny ar 27 Medi 2023. Isod mae linc i'r Cyfarfod Llawn perthnasol, eitem 9:
**https://busnes.senedd.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=700&MId=13488&Ver=4**

Yn gynharach eleni, trafododd y Senedd y mater o gyflwyno'r terfyn cyflymder rhagosodedig o 20mya mewn ymateb i ddeiseb wahanol, sef ar 28 Mehefin 2023, eitem 7:
**https://busnes.senedd.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=700&MId=13384&Ver=4**

2. *with relevant supporting documentation including the full cost of the exercise.*

***Dogfennaeth ategol***

Cyn i Bwyllgor drafod deiseb, maent fel arfer yn ceisio ymateb ysgrifenedig gan y Gweinidog, a **phapur briffio** gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd. Byddai'r rhain yn cael eu cyhoeddi i lywio'r drafodaeth.

Mae pedwar papur briffio yn ymwneud â'r ddeiseb hon:

i. 20mya yng Nghymru: gweithredu ac effeithiolrwydd (senedd.cymru)
ii. 20mya yng Nghymru: gorfodi a monitro (senedd.cymru)
iii. Dylid ailddyrannu'r £30 miliwn sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer terfynau 20mya, i'r GIG, sydd mewn argyfwng, yn enwedig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr!
iv. Eithrio ffyrdd A a B yng Nghymru o'r cyfyngiad cyflymder cyffredinol arfaethedig o 20 mya.

Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

***Cost lawn yr ymarfer***

Mae costau'r polisi 20mya wedi'u cofnodi gan Lywodraeth Cymru. I ofyn am wybodaeth ganddi, e-bostiwch: **Rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru**

Nid yw’r Senedd yn casglu costau mewn perthynas ag ymdrin â deiseb unigol, felly nid oes gennym unrhyw wybodaeth mewn perthynas â’r rhan hon o’ch cais.

Yn gywir,

**Buddug Saer**

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF